# Adroddiad Blynyddol Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2017/18 i Gomisiynydd y Gymraeg

Rhagfyr 2018

# Contents

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad | 3 |
| **2** | Crynodeb o'r Cynllun | 4 |
| **3** | Cefndir y sefydliad | 5 |
| **4** | Cynnydd – Trosolwg Cyffredinol | 6 |
| **5** | Cwynion ac awgrymiadau i wella | 12 |
| **6** | Datblygiadau'r dyfodol | 13 |

**Atodiad 1**

**How to navigate this document onscreen**

returns you to the contents list

# 1 Cyflwyniad

**1.1** Pwrpas yr adroddiad monitro hwn yw amlinellu'r cynnydd sydd wedi'i wneud gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (yr FCA) yn ystod 2017/18 wrth ddarparu gwasanaethau yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg ac adnabod meysydd i'w gwella yn y dyfodol.

# 2 Crynodeb o'r Cynllun

**2.1** Dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Derbyniodd ein cynllun cyfredol gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg dan adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ar 31 Mai 2017.

**2.2** Mae'r cynllun yn disgrifio sut y byddwn, gyhyd ag sy'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylai'r Gymraeg a Saesneg gael eu trin ar sail gyfartal wrth ymgymryd â busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Yn ogystal, mae'n ystyried dyletswydd yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol dan Ddeddf Gwasanaethau Ariannol a Marchnadoedd 2000, fel y'i diwygiwyd, i ddefnyddio'i adnoddau'n economaidd ac yn effeithlon

**2.3** Mae'r cynllun yn ymdrin â'r gweithgareddau a'r gwasanaethau a ddarparwn neu sydd wedi'u bwriadu i aelodau'r cyhoedd yng Nghymru, neu wasanaethau a ddarperir yn ehangach ac sy'n cynnwys Cymru. Yn y cynllun hwn, mae'r term 'cyhoedd' yn golygu unigolion, personau cyfreithiol a chyrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyfan gwbl, neu gyfran o'r cyhoedd, ynghyd ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae Cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd wedi'u cynnwys o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys personau sy'n gweithredu i gynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, hyd yn oed os ydynt yn 'bersonau' cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y gair 'cyhoedd' pan fyddant yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.

# 3 Cefndir y sefydliad

**3.1** Mae'r FCA yn rheoleiddiwr ymddygiad ar gyfer 56,000 o gwmnïau gwasanaethau ariannol a marchnadoedd ariannol yn y DU ac yn rheoleiddiwr darbodus ar gyfer dros 24,000 o'r cwmnïau hynny; mae dros 10,000 o'r rhain wedi'u lleoli yng Nghymru.

**3.2** Ein hamcan strategol yw sicrhau bod y marchnadoedd perthnasol yn gweithio'n dda a'n hamcanion gweithredol yw:

- Gwarchod defnyddwyr – rydym yn sicrhau gwarchodaeth briodol i ddefnyddwyr.
- Gwarchod marchnadoedd ariannol – rydym yn gwarchod ac yn gwella cywirdeb system ariannol y DU.
- Hyrwyddo cystadleuaeth – rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol er budd defnyddwyr.

**3.3** Rydym yn gorff cyhoeddus annibynnol a ariennir yn gyfan gwbl drwy godi ffi ar y cwmnïau yr ydym yn eu rheoleiddio. Rydym yn atebol i'r Trysorlys, sy'n gyfrifol am system ariannol y DU ac i Senedd y DU.

**3.4** Mae ein gwaith a'n pwrpas wedi'u diffinio gan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000. Rydym yn gweithio gyda grwpiau defnyddwyr, cymdeithasau masnachu a chyrff proffesiynol, rheoleiddwyr domestig, deddfwyr yr UE ac ystod eang o randdeiliaid eraill. Gyda'r cylch gorchwyl eang hwn, mae gennym ymagwedd gymesur i reoleiddio, gan flaenoriaethu'r ardaloedd a'r cwmnïau sy'n peri'r risg mwyaf i'n hamcanion. Mae gennym ddyletswydd dan y Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol i ddefnyddio ein hadnoddau yn economaidd ac yn effeithlon.

**3.5** Mae ein pencadlys yn Llundain, lle lleolir tua 3,500 o staff. Maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

# 4 Cynnydd – Trosolwg Cyffredinol

**4.1** Mae'r cynllun iaith Gymraeg diwygiedig wedi rhoi cyfle i'r FCA ailddatgan ein hymrwymiad i drin y Gymraeg a Saesneg yn gyfartal yn y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio i arwain a chydlynu'r Cynllun Gweithredu.

**4.2** Wrth lansio'r Cynllun, dywedodd Andrew Bailey, Prif Weithredwr yr FCA: "Ein nod yw gwasanaethu budd y cyhoedd drwy wella'r ffordd y mae marchnadoedd ariannol yn gweithio a sut mae cwmnïau yn cynnal eu busnes. Mae'n destun balchder i mi i allu cyflwyno cynllun iaith Gymraeg yr FCA, sy'n cynnwys adran newydd gyfan gwbl Gymraeg ar ein gwefan."

**4.3** Fel sefydliad, credwn ein bod wedi gwella ein cynnig Cymraeg yn fawr dros y flwyddyn ddiwethaf, bu i ni gydnabod bod angen gwella er mwyn sicrhau bod ein cynllun iaith Gymraeg yn canolbwyntio ar ddatblygu ein cynnig Cymraeg. Ystyrir bod y cynllun newydd yn fwy rhagweithiol ac yn rhoi gwell eglurder a ffocws i'n gweithgareddau. Mae uchafbwyntiau'r gwelliannau yr ydym wedi'u gwneud yn cynnwys:

- Bod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod deunyddiau ar gael yn Gymraeg
- Sicrhau bod gennym adran bwrpasol ar gyfer y Gymraeg ar wefan yr FCA sy'n cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, dolenni i gyhoeddiadau a ffurflenni dwyieithog ynghyd â'r cynllun hwn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig. Mae'n hawdd cael mynediad i'r adran Gymraeg o ddolen amlwg ar y dudalen hafan.
- Datblygu ffrwd Twitter gorfforaethol bwrpasol ar gyfer y Gymraeg lle bydd trydariadau sydd wedi'u cynllunio yn cael eu postio yn Gymraeg yr un pryd â'r fersiwn Saesneg. Fe wnaethom drydar yn Gymraeg gyntaf ar 23 Mehefin 2017.
- Ymrwymo i gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol, ein prif ddogfen gorfforaethol, yn Gymraeg ynghyd ag yn Saesneg.
- Darparu opsiwn Cymraeg ar ein prif linell cymorth gyda neges wedi'i recordio yn Gymraeg a fydd yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg.
- Bod yn rhagweithiol wrth roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ein bod yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**4.4** Fe welwch ddiweddariadau manwl ar Gamau Gweithredu Blwyddyn 1 o'n Cynllun Gweithredu yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

## Cynnydd – Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru

### Gohebiaeth

**4.5** Rydym yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg. Pan fo rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), a bydd ein targed amser am ymateb yn Gymraeg yr un peth ag ar gyfer gohebiaeth a dderbynnir yn Saesneg.

**4.6** Yn unol â Gweithred A3 o'n Cynllun Gweithredu, rydym yn newid ein hymagwedd er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd rhagweithiol i'r cynnig hwn. Ar hyn o bryd, rydym yn gwneud newidiadau i'n gohebiaeth awdurdodi swyddogol gyntaf gyda chwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru.

**4.7** Yn unol â Gweithred A6, pan gaiff ein Hadroddiad Blynyddol, sydd ar gael yn Gymraeg, ei anfon at gwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, gwnawn hynny yn ddwyieithog, a byddwn yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n ei dderbyn ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Cyhoeddwyd ein hadroddiad diweddaraf ym mis Gorffennaf 2018.

**4.8** Yn ein Cynllun, fe wnaethom ymrwymo i gofnodi os yw unigolyn (yn cynnwys cwmni, grŵp neu sefydliad) yn dweud wrthym eu bod yn dymuno derbyn gohebiaeth gyffredinol yn Gymraeg. Yn unol â Gweithred A7, bellach rydym wedi diweddaru ein sgriniau setiau data gwybodaeth i gynnwys blwch ticio 'Mae'n well gennyf i chi gysylltu â mi yn Gymraeg'. Ni fydd gohebiaeth gyffredinol yn cynnwys gohebiaeth o natur arbenigol neu oruchwyliol, er enghraifft wrth gynnal ymchwiliadau ac ymateb i gwynion neu ohebiaeth a gynhyrchir yn awtomatig gan ein systemau.

**4.9** Yn unol â Gweithred A8 y Cynllun Gweithredu, bydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau gohebu cyffredinol dwyieithog yn ddwyieithog, ac yn unol â Gweithred A9 gellir darparu gwybodaeth ddwyieithog am PPI pan fo'r sawl sy'n eu derbyn wedi nodi gohebiaeth Gymraeg fel dymuniad.

**4.10** Gallwn gadarnhau nad ydym yn trin fersiwn Cymraeg o ohebiaeth yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg cyfatebol, sy'n cynnwys y ffaith y bydd gohebiaeth Gymraeg yn cael ei llofnodi (os yw'r fersiwn Saesneg wedi'i llofnodi).

### Cyfathrebu ar y ffôn

**4.11** Bellach rydym wedi darparu opsiwn Cymraeg ar ein prif linell gymorth gyda neges wedi'i recordio yn Gymraeg a fydd yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn unol â Gweithred A10 y Cynllun Gweithredu.

**4.12** Credwn fod hyn wedi bod yn gam cadarnhaol ymlaen ac mae'n faes lle byddwn yn ceisio gwella ein darpariaeth gwasanaeth yn ystod cyfnod y Cynllun Iaith Gymraeg.

### Cyfarfodydd cyhoeddus a chyswllt arall â'r cyhoedd yng Nghymru

**4.13** Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau gyda'n digwyddiadau rhanbarthol llwyddiannus 'Byw a Lleol' ar gyfer cwmnïau a reoleiddir ledled y DU. Gyda chynnal un o'r digwyddiadau yng Nghaerdydd, fe wnaethom sicrhau bod y dudalen ar y we a oedd yn hyrwyddo'r rhaglen gyfan o ddigwyddiadau ar gael yn Gymraeg.

**4.14** Ni wnaethom ymgymryd ag arolygon papur/ar-lein gyda'r cyhoedd yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd.

## Cynnydd – Ein hwyneb cyhoeddus

### Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

**4.15** O fewn ein Cynllun, fe wnaethom ymrwymo, wrth gynnal ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a gweithgareddau hysbysebu yng Nghymru – wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru fel rhan o weithgaredd ledled y DU, i ddarparu deunydd perthnasol ar ffurf dwyieithog neu Gymraeg a Saesneg ar wahân. Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom lansio ein tudalen bwrpasol ar y we ar gyfer PPI gan ddarparu gwybodaeth bwysig i aelodau'r cyhoedd yng nghyswllt y dyddiad cau arfaethedig i hawlio. Sicrhawyd bod holl gynnwys y tudalennau gwe a'r dolenni, yn cynnwys fideos animeiddio, ar gael yn Gymraeg ynghyd ag yn Saesneg, ac mae'r ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd – ac roedd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd ac mae'r naill mor hygyrch â'r llall. Yn ogystal, fe wnaethom gynhyrchu taflenni i ddefnyddwyr a hysbysebion awyr agored ar gyfer y dyddiad cau PPI yn Gymraeg ynghyd ag yn Saesneg, a fersiwn Cymraeg o'n hysbyseb teledu PPI a oedd ar gael ar-lein drwy ein gwefan, ein ffrwd Gymraeg ar Twitter a YouTube.

**4.16** Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gynhyrchu ein datganiad i'r wasg cyntaf yn Gymraeg a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau'r arolwg 'Bywydau Ariannol' o safbwynt Cymru.

### Cyhoeddiadau defnyddwyr

**4.17** Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn ein Cynllun, cyhoeddwyd ein Hadroddiad Blynyddol, ein prif ddogfen gorfforaethol, yn Gymraeg ynghyd ag yn Saesneg.

**4.18** Roedd y dull o sicrhau bod cyhoeddiadau defnyddwyr ar gael yn Gymraeg o fewn ein cynllun blaenorol yn seiliedig ar system sgorio a ddefnyddiwyd i asesu p'un a ddylid sicrhau bod mathau arbennig o gyhoeddiadau sydd wedi'u cynllunio ar gael yn Gymraeg ynghyd ag yn Saesneg. Roedd y system yn seiliedig ar yr elfennau sgorio a ganlyn:

- nifer o gopïau i'w cynhyrchu
- math y gynulleidfa darged
- am ba hyd y disgwylir i'r cyhoeddiad barhau
- nifer y geiriau
- nifer y tudalennau

**4.19** Rydym yn cydnabod nad oedd hyn yn ddull rhagweithiol ac yn ystod y cyfnod adrodd ar gyfer 2016/17, ni dderbyniwyd cais gan y cyhoedd i gynhyrchu fersiwn Cymraeg o gyhoeddiad Saesneg, felly ni chynhyrchwyd unrhyw gyhoeddiadau Cymraeg ychwanegol.

**4.20** Mae ymagwedd wahanol a mwy rhagweithiol yn ein Cynllun newydd sy'n ystyried bod angen i ni ganolbwyntio ein hadnoddau'n gyfrifol. Bellach, rydym yn seilio ein hymagwedd ar sicrhau bod cyhoeddiadau generig ar gael yn ddwyieithog drwy adlewyrchu natur y cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn ôl math.

**4.21** Ein hymrwymiad oedd, gan roi sylw dyledus i natur y cwmnïau yng Nghymru, y byddem yn cyhoeddi'r 20 deunydd generig ar gyfer defnyddwyr FCA a ddefnyddir fwyaf yn ddwyieithog ym mlwyddyn 1 y Cynllun (Gweithred A17) a cheisio cynyddu argaeledd cyhoeddiadau dwyieithog dros amser drwy sicrhau bod 5 cyhoeddiad ychwanegol ar gael yn flynyddol. Hyd yma, rydym wedi cynhyrchu 14 o ddogfennau defnyddwyr generig yn Gymraeg, yn unol â Gweithred A19. Mae'r rhestr o gyhoeddiadau sydd ar gael ar ein gwefan ynghyd ag o fewn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Er fod hyn mewn gwirionedd yn is na'n targed mae'n adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi cynhyrchu mwy o dudalennau ar y we yn Gymraeg sy'n haws i'w diweddaru a'u cadw'n gyfredol. Yn y gorffennol, byddai'r rhain wedi bod yn gyhoeddiadau traddodiadol, ac mae hyn yn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael yn Gymraeg.

**4.22** Er mwyn cyd-fynd â'n hymagwedd newydd, fe wnaethom ymrwymo i ymateb i geisiadau penodol am gyhoeddiadau dwyieithog ar sail achos wrth achos ac yn ystyried gwneud y deunydd ar gael yn Gymraeg, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol a lle bo galw am y cyhoeddiad penodol hwnnw. Bydd ystyriaethau'n cynnwys perthnasedd y cyhoeddiad i natur y cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru – yn ystod y cyfnod adrodd, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath.

### Gwefannau

**4.23** Yn ystod y flwyddyn, ac yn unol â Gweithred A3, bellach mae gennym adran bwrpasol ar gyfer yr iaith Gymraeg ar wefan yr FCA. Mae hwn yn hwb canolog ar gyfer ein holl ddeunyddiau Cymraeg ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, dolenni i gyhoeddiadau a ffurflenni dwyieithog ynghyd â'n Cynllun a'r Cynllun Gweithredu. Mae'r adran Gymraeg yn hawdd mynd ati o'r dudalen gartref.

**4.24** Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi cofnodi cyfanswm o 2,543 o ymweliadau â'r adran Gymraeg.

**4.25** Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom gyhoeddi fersiwn Cymraeg pwrpasol o'r tudalennau gwe ymgyrch PPI hefyd, a gwelwyd dros 200 o ymweliadau â'r rhain.

### Y cyfryngau cymdeithasol

**4.26** Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom lansio ffrwd Twitter gorfforaethol Gymraeg - @FCACymru, a oedd yn ymrwymiad a wnaed yn ein Cynllun (Gweithred A20).

### Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig

**4.27** Yn debyg i'n hymagwedd gyda chyhoeddiadau defnyddwyr, cymerwyd ymagwedd ymatebol yn ein cynllun iaith Gymraeg blaenorol a oedd yn defnyddio system sgorio i asesu p'un a ddylem sicrhau bod mathau penodol o ffurflenni ar gael yn rhagweithiol yn Gymraeg ynghyd ag yn Saesneg. Roedd y system sgorio yn seiliedig ar yr elfennau sgorio a ganlyn:

- nifer o gopïau i'w cynhyrchu
- math y gynulleidfa darged
- am ba hyd y disgwylir i'r cyhoeddiad barhau
- nifer y geiriau
- nifer y tudalennau

**4.28** Rydym yn cydnabod nad oedd hyn yn ddull rhagweithiol ac yn ystod y cyfnod adrodd ar gyfer 2016/17, ni dderbyniwyd cais gan y cyhoedd i gynhyrchu fersiwn Cymraeg

o ffurflen Saesneg, felly ni chynhyrchwyd unrhyw ffurflen Gymraeg ychwanegol; roeddem am wella'r sefyllfa hon.

**4.29** Mae ymagwedd wahanol a mwy rhagweithiol yn ein Cynllun newydd sy'n ystyried bod angen i ni ganolbwyntio ein hadnoddau'n gyfrifol. Bellach, rydym yn seilio ein hymagwedd ar sicrhau bod ffurflenni ar gael yn ddwyieithog drwy adlewyrchu natur y cwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn ôl math.

**4.30** Ein hymrwymiad oedd, gan roi sylw dyledus i natur y cwmnïau yng Nghymru, y byddem yn cyhoeddi'r 10 ffurflen a ddefnyddir fwyaf yn ddwyieithog ym mlwyddyn 1 y Cynllun (Gweithred A21) a cheisio cynyddu argaeledd ffurflenni Cymraeg dros amser drwy sicrhau bod 3 ffurflen ychwanegol ar gael yn Gymraeg yn flynyddol. Hyd yma, rydym wedi cynhyrchu 8 ffurflen yn Gymraeg, yn unol â Gweithred A23. Mae'r rhestr o ffurflenni sydd ar gael ar ein gwefan ynghyd ag o fewn Atodiad 2 yr adroddiad hwn. Mae'r ffigwr is hwn yn sgil ein hymagwedd newidiol i gasglu gwybodaeth, a llai o ddibyniaeth ar ffurflenni.

**4.31** O fewn ein Cynllun, fe wnaethom ymrwymo i adolygu sut y gallem, mewn amser, gynyddu argaeledd ffurflenni ar-lein dwyieithog. Fel rhan o'n symudiad i helpu cwmnïau a chymryd ymagwedd fwy digidol fel sefydliad, rydym yn tynnu ffurflenni oddi ar ein gwefan yn raddol ac yn eu hintegreiddio ar Connect, ein system sydd wedi'i gwarchod gyda chyfrinair.

**4.32** Ar gyfer data sy'n wynebu'r cyhoedd yn fwy, byddwn yn lansio adran ddata bwrpasol ar wefan yr FCA ac ym Mlwyddyn 2 ein cynllun, byddwn yn datblygu adran Gymraeg i helpu i'n data fod yn fwy agored a thryloyw, byddwn yn croesawu mewnbwn y Comisiynydd i hyn.

### Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

**4.33** Yn ystod y cyfnod adrodd, ni wnaethom gyhoeddi unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus na hysbysiadau recriwtio staff perthnasol.

### Codi ymwybyddiaeth

**4.34** Rydym wedi hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg drwy roi gwybod i'r cyhoedd yng Nghymru drwy ohebiaeth, ar ein llinell ffôn Gymraeg, ar ein gwefan ac ar ein ffrwd Gymraeg ar Twitter.

## Cynnydd – Gweithredu'r Cynllun

### Staffio, recriwtio, hyfforddiant iaith a hyfforddiant galwedigaethol

**4.35** Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw swyddi o fewn strwythur staffio'r FCA lle'r ystyrir y gallu i siarad Cymraeg yn 'hanfodol' neu'n 'ddymunol'. Fodd bynnag, rydym yn ymrwymedig i sicrhau y cyflawnir darpariaethau'r Cynllun. Yn ystod y flwyddyn, ac yn unol â Gweithred A26 y Cynllun Gweithredu, fe wnaethom gyhoeddi nifer o erthyglau ar 'Hub' ein safle mewnrwyd i staff, i godi ymwybyddiaeth am y Cynllun a'i ddarpariaethau.

**4.36** Rydym wedi cynhyrchu canllaw i staff yn ymdrin â phrif elfennau'r cynllun. Bwriad hwn yw helpu ein staff i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cyflawni a gwella'r mesurau sydd wedi'u cynnwys o fewn y cynllun.

**4.37** Rydym wedi bod yn ymwybodol fod gennym siaradwyr Cymraeg yn gweithio i'r FCA mewn adrannau ar draws y sefydliad ac rydym yn gweithio i adnabod y rheini sydd â'r gallu i siarad Cymraeg, a chofnodi hyn ar ein system AD. Mae hyn yn caniatáu i adrannau adnabod cydweithwyr sydd â gwybodaeth weithiol o'r iaith – y gallwn eu defnyddio i gynorthwyo mewn amgylchiadau penodol. Fel rhan o ymgyrch codi ymwybyddiaeth am y Cynllun newydd, fe wnaethom gyhoeddi erthygl ar 'Hub' ar ddydd Gŵyl Dewi i annog staff i roi gwybod i ni am unrhyw sgiliau Cymraeg sydd ganddynt, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae dau aelod o staff wedi cofnodi eu gallu i siarad Cymraeg fel sgil.

### Trefniadau mewnol

**4.38** Mae ein Pwyllgor Gweithredol yn cefnogi, yn cymeradwyo ac yn rhoi ei awdurdod llawn i'r cynllun a'r ymrwymiadau a wneir o fewn iddo ac maent wedi'u cadarnhau gan y Prif Weithredwr. Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio i oruchwylio cydlynu a chyflawni'r Cynllun a'r Cynllun Gweithredu; mae rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny o'r cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.

**4.39** Mae'r cyfrifoldeb am fonitro gweithrediad y cynllun yn gorwedd o fewn yr adran Cyfathrebu Busnes a Defnyddwyr ac mae hyn yn caniatáu i'r FCA sicrhau lefel o gysondeb o fewn yr adran sy'n bennaf gyfrifol am ei gwaith sy'n wynebu'r cyhoedd..

# 5 Cwynion ac awgrymiadau i wella

**5.1** Mae'n dda gennym adrodd na wnaethom dderbyn unrhyw gwynion yng nghyswllt ein gwasanaethau Cymraeg yn ystod y cyfnod adrodd. Hyd yma, ac yn y bedair blynedd ers i'r FCA gymryd y cyfrifoldeb am weithredu'r cynllun drosodd, nid ydym wedi derbyn yr un gŵyn gan y cyhoedd yng nghyswllt yr iaith Gymraeg.

# 6 Datblygiadau'r dyfodol

**6.1** Credwn yn gryf fod yr FCA mewn sefyllfa gryfach yn nhermau ein darpariaeth gwasanaeth Cymraeg nag erioed o'r blaen. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi anelu i gyflawni ein hymrwymiadau yn llawn mewn ffordd ragweithiol ac mae'r ffaith ein bod wedi cyflawni'r Gweithredoedd ar gyfer blwyddyn 1 o fewn y Cynllun Gweithredu yn arddangos hyn.

**6.2** Ein nod dros y flwyddyn nesaf fydd cyflawni ein Gweithredoedd ym Mlwyddyn 2 ynghyd â chryfhau meysydd nad ydynt wedi'u cyflawni'n llawn ym Mlwyddyn 1. Nodwn y rhain fel a ganlyn:

**6.3** Wrth i ni newid ac esblygu'r ffordd yr ydym yn gweithio dros y blynyddoedd nesaf, ar gyfer data sy'n wynebu'r defnyddwyr byddwn yn lansio adran ddata bwrpasol ar wefan yr FCA yn fuan ac yna byddwn yn datblygu adran Gymraeg i helpu i'n data fod yn fwy agored a thryloyw.

- Twitter drwy gyfrwng y Gymraeg – cynyddu ei ddefnydd a'i broffil
- Cyhoeddiadau – cynyddu faint sydd ar gael yn Gymraeg i gyflawni'r targedau sydd wedi'u nodi o fewn y Cynllun
- Ffurflenni – wrth i ni symud i ffwrdd o lawrlwythiadau traddodiadol, byddwn yn ystyried opsiynau gyda'r bwriad o adnabod ffyrdd a allai'n helpu ni i gynyddu argaeledd ffurflenni ar-lein Cymraeg..

# Atodiad 1

## Cynllun Iaith Gymraeg yr FCA – gweithredoedd Blwyddyn 1 y Cynllun Gweithredu

### Cynllunio a chyflawni gwasanaethau

| Cyf | Adran | Gweithred | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| A1 | 3.1<br>23.5 | Codi ymwybyddiaeth ar draws yr FCA am yr angen i sicrhau bod polisïau, mentrau a gwasanaethau yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg. | Pennaeth Cyfathrebu Busnes a Defnyddwyr | Rhoddwyd cyflwyniad i Dîm Arweinyddiaeth Uwch yr FCA i'w ledaenu ar draws y sefydliad. Yn ogystal, cyhoeddwyd erthygl ar 'Hub', safle mewnrwyd yr FCA, i lansio a chodi ymwybyddiaeth am y cynllun a'r meysydd gwasanaeth y mae ei ddarpariaethau yn ymdrin â hwy.<br>Hyrwyddo pellach ar lefel leol yn dilyn cyfarfodydd Grŵp Llywio'r Cynllun Iaith Gymraeg i annog cynnydd gyda'n hymrwymiadau ar gyfer Blwyddyn 1. |
| A3 | 4.1<br>14.1 | Datblygu adran bwrpasol ar wefan gorfforaethol yr FCA yn amlinellu ein hymrwymiad i'r iaith Gymraeg a'r holl wasanaethau ac adnoddau sydd ar gael yn Gymraeg. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am y dolenni i gyhoeddiadau a ffurflenni dwyieithog sydd ar gael ynghyd â'r cynllun a'r cynllun gweithredu hwn. Bydd y wefan bwrpasol ar gyfer gwybodaeth am yr iaith Gymraeg yn hawdd mynd ati o'r dudalen gartref gyda botwm llywio wedi'i farcio'n glir. Bydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. | Rheolwr Golygyddol a Digidol | Adran bwrpasol wedi'i hychwanegu i wefan yr FCA, ynghyd â bod yn gartref i'r holl adnoddau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg, mae'r adran yn amlinellu ymrwymiad yr FCA i'r iaith Gymraeg. |

## Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru

| Cyf | Adran | Gweithred | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| A5 | 7.1 | Nodi mewn gohebiaeth awdurdodi swyddogol gyntaf gyda chwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru ac mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd pobl i ymateb i ni ein bod yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg a Saesneg. | Tîm Connect | Bellach, rydym yn nodi yn ein gohebiaeth awdurdodi swyddogol gyntaf gyda chwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru bod yr FCA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. |
| A6 | 7.2 | Pan fyddwn yn anfon ein Hadroddiad Blynyddol i gwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, fe wnawn hynny yn ddwyieithog, a byddwn yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n eu derbyn ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. | Rheolwr Golygyddol a Digidol | Byddwn yn anfon ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2017/18, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018 ac sydd ar gael yn Gymraeg, i gwmni, unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru yn ddwyieithog. Hefyd, byddwn yn rhoi gwybod i'r sawl sy'n eu derbyn ein bod yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. |
| A7 | 7.5 | Cadw cofnod o ddymuniad unigolyn i dderbyn gohebiaeth gan yr FCA yn Gymraeg, a bydd gohebiaeth gyffredinol o hynny ymlaen yn cael ei hanfon yn Gymraeg. | Canolfan Gyswllt / Goruchwyliaeth | Bellach, rydym wedi diweddaru ein sgriniau cyfresi data gwybodaeth i gynnwys blwch ticio 'Mae'n well gennyf i chi gysylltu â mi yn Gymraeg'. |
| A8 | 7.7 | Sicrhau bod atodiadau sy'n cael eu hanfon gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fo'r deunydd ar gael. | Canolfan Gyswllt / Goruchwyliaeth | Byddwn yn anfon atodiadau dwyieithog gyda llythyrau dwyieithog pan fo'r deunydd ar gael yn ddwyieithog. |
| A9 | 7.8 | Sicrhau bod atodiadau sy'n cael eu hanfon at y rheini sydd wedi nodi gohebiaeth Gymraeg fel dymuniad (Adran 7.5) yn Gymraeg neu'n ddwyieithog pan fo'r deunydd ar gael. | Canolfan Gyswllt / Goruchwyliaeth | Gellir darparu gwybodaeth ddwyieithog am PPI pan fo'r sawl sy'n eu derbyn wedi nodi gohebiaeth Gymraeg fel dymuniad. |
| A10 | 8.1 | Darparu Opsiwn Iaith Gymraeg ar ein prif linell gymorth sy'n amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. | Canolfan Gyswllt | Bellach rydym wedi darparu opsiwn iaith Gymraeg ar ein prif llinell gymorth gyda neges wedi'i recordio yn Gymraeg a fydd yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg. |

## Ein Hwyneb Cyhoeddus

| Cyf | Adran | Gweithred | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| A16 | 12.6 | Sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn mynychu stondinau ac arddangosfeydd ymgyrchoedd yng Nghymru drwy weithio gyda darparwyr gwasanaeth allanol neu bartneriaid. | Cyfathrebu'r Cwmni | Nid oedd arddangosfeydd ymgyrch wedi'u cynnal yng Nghymru yn ystod y cyfnod adrodd. |
| A17 | 13.1<br>13.2 | Adnabod yr 20 deunydd generig ar gyfer defnyddwyr FCA a ddefnyddir fwyaf gan gwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a sicrhau eu bod ar gael yn ddwyieithog. | Golygyddol a Digidol | Mae 14 o ddeunydd defnyddwyr a ddefnyddir gan gwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog. |
| A19 | 13.1<br>13.2 | Darparu rhestr o'r cyhoeddiadau sydd ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan ac o fewn ein hadroddiad blynyddol i Gomisiynydd yr Iaith. | Golygyddol a Digidol | Mae rhestr ar gael ar adran Gymraeg gwefan yr FCA ac wedi'i chynnwys fel Atodiad 2 o'n Hadroddiad Cynllun Iaith Gymraeg Blynyddol. |
| A20 | 15.1 | Datblygu ffrwd Twitter gorfforaethol bwrpasol yn Gymraeg. | Golygyddol a Digidol | Ffrwd Twitter gorfforaethol bwrpasol yn Gymraeg - @FCACymru wedi'i lansio. |
| A21 | 16.1 | Adnabod y 10 ffurflen bapur a ddefnyddir fwyaf ar gyfer y math o gwmnïau cofrestredig sydd wedi'u lleoli yng Nghymru a sicrhau eu bod ar gael yn ddwyieithog. | Golygyddol a Digidol | Mae 8 ffurflen bapur bellach ar gael yn ddwyieithog. |
| A23 | 16.1<br>16.2 | Darparu rhestr o'r ffurflenni sydd ar gael yn Gymraeg ar ein gwefan ac o fewn ein hadroddiad blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg. | Golygyddol a Digidol | Mae rhestr ar gael ar adran Gymraeg gwefan yr FCA ac wedi'i chynnwys fel Atodiad 2 o'n Hadroddiad Blynyddol am y Cynllun Iaith Gymraeg. |
| A25 | 18.1 | Hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg yr ydym yn eu darparu drwy roi gwybod i'r cyhoedd yng Nghymru yn rhagweithiol drwy ohebiaeth, mewn digwyddiadau yng Nghymru, ar y wefan ac ar y ffrwd Gymraeg ar Twitter. | Golygyddol a Digidol | Rydym wedi hyrwyddo'r gwasanaethau Cymraeg yr ydym yn eu darparu drwy roi gwybod i'r cyhoedd yng Nghymru yn rhagweithiol drwy ohebiaeth, ar ein llinell gymorth iaith Gymraeg ac ar ein gwefan a'r ffrwd Gymraeg ar Twitter. |

## Gweithredu'r cynllun

| Cyf | Adran | Gweithred | Cyfrifoldeb | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|
| A26 | 20.1<br>23.5<br>23.6<br>23.7<br>23.8 | Cynhyrchu canllawiau i staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. | Cyfathrebu | Rydym wedi cynhyrchu canllaw i staff sy'n ymdrin ag elfennau allweddol y cynllun. Pwrpas hwn yw helpu ein staff i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cyflawni a gweithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys o fewn y cynllun.<br>Nifer o erthyglau ar ein safle mewnrwyd staff 'MyFCA Hub' i godi ymwybyddiaeth am y Cynllun a'i ddarpariaethau. |
| A27 | | Diwygio canllawiau presennol neu debyg a ddefnyddir gan staff i adlewyrchu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn. | Cyfathrebu | Rydym wedi cyhoeddi nodyn canllaw i staff, y cyfeirir ato uchod, yn ymdrin â phrif elfennau'r Cynllun ac mae'r Tîm Arweinyddiaeth uwch yn cynnwys Penaethiaid Adran wedi derbyn nodyn briffio hefyd. |
| A28 | | Trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i staff allweddol i gynyddu ymwybyddiaeth am y cynllun hwn – ac egluro sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd. | Cyfathrebu | Mae Penaethiaid Adran wedi'u briffio ar ofynion blwyddyn un y Cynllun a chaiff hyn ei gyflwyno'n raddol i dimau sy'n gyfrifol am oruchwylio yn gynnar ym mlwyddyn 2. |
| A29 | 24.2 | Adrodd i'r uwch reolwyr ar y cynnydd hwnnw ar sail flynyddol. | Cyfathrebu | Adroddiad wedi'i gynhyrchu ar gyfer Penaethiaid Adran ac uwch reolwyr. |
| A31 | 24.4 | Paratoi adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg ar sail flynyddol ac yn ôl y gofyn, yn amlinellu cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn a'r cynllun gweithredu. | Cyfathrebu | Adroddiad wedi'i baratoi. |

FINANCIAL
CONDUCT
AUTHORITY

© Financial Conduct Authority 2018
12 Endeavour Square London E20 1JN
Telephone: +44 (0)20 7066 1000
Website: www.fca.org.uk
All rights reserved